Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

# Ddysgu Oedolion yn y Gymuned – Coleg Pen-y-bont

Heol Y Bont-faen,
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3DF

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Dysgu Oedolion yn y Gymuned – Coleg Pen-y-bont

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Coleg Pen-y-bont |
| Awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r darparwr a phartneriaid cyflwyno allweddol | Oherwydd newidiadau mewn trefniadau cyllido (gweler isod), adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar waith ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, mae darparwyr addysg allweddol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Addysg Oedolion Cymru a Choleg Pen-y-bont, yn cynnal rhwydwaith sy'n eu galluogi i osgoi dyblygu darpariaeth. |
| Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf | Ers yr arolygiad diwethaf, penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dynnu'n ôl o ddefnyddio'r grant dysgu oedolion yn y gymuned a'i rôl fel y partner arweiniol ar gyfer y ddarpariaeth. Yn ddiweddarach, rhoddodd Medr, y corff sy'n gyfrifol am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, wahoddiad i Goleg Pen-y-bont ddefnyddio'r ddarpariaeth i sicrhau parhad darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn y sir. Cytunodd Coleg Pen-y-bont i wneud hyn. Mae'r arolygiad hwn wedi canolbwyntio ar y ddarpariaeth a wnaed o dan y trefniadau hyn. |
| Nifer y dysgwyr adeg yr arolygiad | 191 |
| Nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd lawn flaenorol | 644 (rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mai 2026) |
| Manylion am raglenni'r bartneriaeth, o ran cyrsiau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru (SSIE a medrau sylfaenol) ac ystod o gyrsiau eraill (hamdden / adfer costau) | Mae Coleg Pen-y-bont yn cyflwyno cyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) a datblygiad personol a |

| | |
|---|---|
| | chyrsiau ymgysylltu trwy ei gyllid amser llawn, rhan-amser a dysgu oedolion yn y gymuned. |
| Ynglŷn â'r dysgwyr ar gyrsiau'r bartneriaeth | Yn 2025 – 2026, roedd tua 27% o ddysgwyr ar gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned rhwng oedrannau 40 – 49, tra foedd tua 18% o ddysgwyr yn 60 oed neu'n hŷn. Roedd tua 4% o ddysgwyr yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Cyfran y dysgwyr a nododd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd oedd 1.83%, a chyfran y dysgwyr a nododd eu bod yn siarad Cymraeg ond nad oeddent yn rhugl oedd 4.02%. Nododd tua 94% o ddysgwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg, ond roedd llawer o'r rhain yn ddysgwyr SSIE. Roedd 41% o ddysgwyr yn dod o'r ddau gwintel uchaf (yr ardaloedd mwyaf difreintiedig) ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Ynglŷn â'r boblogaeth yn ardal y bartneriaeth | Mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2024 yn adrodd bod poblogaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 147,530. Roedd benywod yn cyfrif am ychydig dros hanner o'r boblogaeth, sef 50.5%. Roedd tua 61.3% y boblogaeth rhwng 16 – 64 oed. Mae tua 3% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Dywedodd cyfrifiad 2021 mai canran y siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oedd 9.2%, o gymharu â ffigur Cymru gyfan, sef 17.8%.<br><br>Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) ar gyfer 2025 yn dangos cyfran yr ardaloedd bach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) ym mhob awdurdod lleol sydd yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd dwy o |

| | |
|---|---|
| | ardaloedd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y cwintelau mwyaf difreintiedig. Mae hyn yn dangos bod gan yr awdurdod lleol ardaloedd o amddifadedd ac anfantais ond roedd ganddo lai o amddifadedd na mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 13/02/2023 |

## Crynodeb

Ym mis Ebrill 2025, trosglwyddwyd dyraniad yr awdurdod lleol o'r grant dysgu oedolion yn y gymuned i Goleg Pen-y-bont i helpu sicrhau darpariaeth barhaus dysgu oedolion yn y gymuned ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ym mlwyddyn gychwynnol y trefniant hwn, mae Coleg Pen-y-bont yn cynnig darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn cyfleusterau sydd ar gael yn hawdd ar ei brif gampysau ac mewn lleoliadau cymunedol ar draws y fwrdeistref sirol. Mae gan y darparwr ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer dysgu oedolion, ac mae'n ceisio chwalu rhwystrau sy'n atal dysgwyr sy'n oedolion rhag cael mynediad at ddysgu sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'n cynnig darpariaeth addas i ddiwallu anghenion a bodloni diddordebau dysgwyr sy'n oedolion ledled y sir.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, ac maent yn cynhyrchu gwaith o safon uchel. Mewn llawer o gyrsiau, maent yn gwella'u medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a busnes trwy gyrsiau fel blodeuwriaeth, ffotograffiaeth ddigidol a thacluso cŵn, yn ogystal â datblygu eu hyder a'u hunan-barch. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau dysgu a'r cyfeillgarwch sy'n dod yn sgil bod yn rhan o ddosbarth.

Mae bron pob tiwtor yn cynllunio'r cwricwla ar gyfer cyrsiau yn ofalus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o addysgu oedolion, ac maent yn sicrhau eu bod yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a medrau newydd, tra'n cynorthwyo'r dysgwyr unigol i ddatblygu eu diddordebau eu hunain yn y pwnc. Mae tiwtoriaid yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft trwy ddeunyddiau dwyieithog, a threftadaeth Cymru yn effeithiol mewn sesiynau. Adeg yr arolygiad, nid yw'r darparwr yn cynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae dysgwyr yn elwa ar drefniadau gofal, arweiniad a chymorth effeithiol. Maent yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da gan eu tiwtoriaid. Mae dysgwyr yn ennill gwybodaeth gychwynnol o ddosbarthiadau o ffynonellau ar-lein neu yn y digwyddiadau marchnata y mae'r darparwr yn eu cynnal mewn lleoedd fel archfarchnadoedd, gorsafoedd rheilffordd ac ysgolion. Mae llawer o ddosbarthiadau, yn enwedig dosbarthiadau ymarferol, fel crefft siwgr a thacluso cŵn, yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol sy'n hawdd eu cyrraedd o fynd ar fws, trên neu mewn car.

Cynigir dosbarthiadau eraill fel dosbarthiadau ar-lein neu hybrid (ar-lein / wyneb yn wyneb), sy'n helpu dysgwyr i gyfuno dysgu â'u hymrwymiadau cartref a gweithio yn haws. Mae tiwtoriaid yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddysgwyr am sut gallant symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch a llwybrau y gallai fod angen iddynt eu dilyn i gael cyflogaeth neu ddatblygu eu gyrfaoedd.

Mae’r darparwr wedi cynllunio i ddefnyddio’r grant dysgu oedolion yn y gymuned yn effeithiol. Mae’n monitro’r ddarpariaeth yn rheolaidd i sicrhau ansawdd, ac yn wybodus am gryfderau’r ddarpariaeth a’i meysydd i’w gwella. Mae presenoldeb mewn darpariaeth gyda’r nos a darpariaeth gymunedol yn amrywiol. Mae’r darparwr yn gwrando’n ofalus ar yr adborth gan ei ddysgwyr, ac yn cyhoeddi gwybodaeth am y camau y mae wedi eu cymryd trwy bosteri ‘dywedoch chi, gwnaethon ni’.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu’r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1 Ymestyn cyrhaeddiad y coleg i leoliadau cymunedol i helpu lleihau rhwystrau rhag addysg ymhellach.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Nid yw’r bartneriaeth mewn categori gweithgarwch dilynol. Yn unol ag adran 80 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 neu adran 62 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, bydd y darparwr yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig o’i gynllun gweithredu yn sgil yr adroddiad arolygu. Byddwn yn ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hymweliadau arolygwyr cyswllt rheolaidd.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae bron pob un o’r dysgwyr sy’n mynychu dosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn ac yn gwneud cynnydd da i gyflawni eu dyheadau a’u nodau unigol.

Mae dysgwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau Saesneg. Maent yn siarad yn hyderus am eu dyheadau yn y dyfodol, yn cynnwys dilyniant i astudio ymhellach a chyrsiau yn gysylltiedig â chyflogaeth.

Ar draws pob lefel, mae dysgwyr SSIE yn magu hyder o ran deall a siarad Saesneg. Mae dysgwyr Lefel 1 yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd uchel gan ddefnyddio strwythurau brawddeg cymhleth a geirfa uchelgeisiol, tra bod dysgwyr lefel mynediad yn gwneud defnydd effeithiol o ystod addas o amserau i adrodd am eu profiadau a’u cynlluniau. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Maent yn cymhwyso’u dysgu yn effeithiol i sefyllfaoedd bywyd bob dydd, yn cynyddu eu dealltwriaeth o Gymru a’r diwylliant Cymreig, ac yn defnyddio geirfa Gymraeg syml.

Mae dysgwyr mewn darpariaeth medrau byw yn annibynnol (MBA) yn siarad yn hyderus a gyda balchder am y medrau y maent yn eu datblygu yn ystod eu cyrsiau. Mae’r medrau hyn yn cynnwys datblygu eu hyder, dod yn fwy annibynnol, deall rolau swydd a chyflogadwyedd. Maent yn datblygu medrau cyfathrebu a medrau bywyd gwerthfawr trwy wirfoddoli yn y coleg a’r gymuned.

Mewn cyrsiau mathemateg ar gyfer rhieni plant oedran uwchradd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn deall y cysyniadau a’r medrau mathemategol sydd eu hangen ar lefel TGAU, a sut cânt eu haddysgu. O ganlyniad, gallant gefnogi dysgu eu plant yn effeithiol gartref.

Mae llawer o ddysgwyr ar y cwrs Sbaeneg sgyrsiol yn dangos ymrwymiad cryf i ddysgu. Maent yn gwneud cynnydd yn eu medrau siarad a gwrando a gallant gynnal sgyrsiau ystyrlon. Mae ychydig o ddysgwyr wedi symud ymlaen o lefelau elfennol i lefelau uwch. Mae ychydig o ddysgwyr yn ymestyn eu medrau dysgu iaith y tu allan i sesiynau ffurfiol trwy gyfarfod yn gymdeithasol i ymarfer Sbaeneg sgyrsiol gyda’i gilydd.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn mewn dosbarthiadau lles ac ymarferol. Maent yn cynhyrchu safonau uchel iawn o waith mewn blodeuwriaeth, crefft siwgr, ffotograffiaeth ddigidol, dylunio patrymau gwnïo a dyfrlliwiau, er enghraifft. Mae llawer ohonynt yn cyflawni achrediad am eu gwaith. Mae ychydig o ddysgwyr yn symud ymlaen i sefydlu eu busnesau eu hunain.

Mae dysgwyr ar gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu dysgu yn fawr. Maent yn cynorthwyo'i gilydd yn y dosbarth a phan fydd unigolion yn wynebu heriau. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r rhyngweithio cymdeithasol â'u cyfoedion ac mae llawer o amgylcheddau dysgu yn llawn hwyl a chwerthin. Mae hyn yn cyfrannu at eu lles. Mae'n helpu meithrin cariad at ddysgu, ac yn aml yn cryfhau eu cyfranogiad mewn meysydd bywyd eraill. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau coginio yn cyfrannu cacennau i aduniadau teuluol a digwyddiadau cymdeithasol allanol yn eu cymunedau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr SSIE yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn dysgu. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu eu medrau cyfathrebu i'w galluogi i ddod yn rhan o'u cymunedau lleol. Yn y dosbarth, maent yn cymryd rhan yn hyderus mewn trafodaethau a gweithgareddau cydweithredol. Mae dysgwyr SSIE yn hynod barchus at ei gilydd, ac yn dangos diddordeb diffuant ym mhrofiadau, diwylliannau a safbwyntiau ei gilydd.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau SSIE a mathemateg ar gyfer rhieni yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd sy'n dod yn sgil dysgu ar-lein neu ddysgu hybrid. Mae hyn yn eu galluogi i astudio ochr yn ochr â'u hymrwymiadau gwaith a chartref, a mynychu'n rheolaidd. Mewn darpariaeth gymunedol, fel medrau sylfaenol a mathemateg, mae dysgwyr yn mwynhau cyfarfod â'i gilydd a'u tiwtor wyneb yn wyneb mewn hybiau cymunedol y gellir eu cyrraedd yn hawdd.

Mae tiwtoriaid yn frwdfrydig ac yn ymroddgar i anghenion dysgwyr sy'n oedolion. Mae gan lawer ohonynt wybodaeth safonol sy'n helpu dysgwyr i ddilyn gyrfa yn y pwnc o'u dewis. Maent yn mwynhau addysgu eu dosbarthiadau ac maent yn rhoi amser i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm a deunyddiau sy'n addas ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion.

Bron ym mhob un o'r dosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned, mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio gyda'r dysgwr men cof. Yn aml, caiff ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â dysgwyr i adlewyrchu eu hanghenion a'u dyheadau. Mae bron holl ddeunyddiau cyrsiau yn ddwyieithog. Mae tiwtoriaid yn defnyddio offer asesu teilwredig i nodi mannau cychwyn dysgwyr a lefel y cwrs. Mae tiwtoriaid yn cynnig cyrsiau achrededig a heb eu hachredu sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen ar eu cyflymdra'u hunain neu fynd i'r afael ag achrediad mewn camau hylaw.

### Ciplun: Ffotograffiaeth Ddigidol

Mae dysgwyr mewn ffotograffiaeth ddigidol yn elwa ar gwricwlwm a ddyfeisiwyd yn dda. Mae'n cynnwys datblygu gwybodaeth dechnegol am offer, sut i strwythuro ffotograffau, datblygu medrau TGCh, gwerthfawrogiad artistig o ffotograffau a dealltwriaeth o waith ffotograffwyr o Gymru a thirluniau a darluniau ôl-ddiwydiannol yng Nghymru. Mae hefyd

yn cynnwys dyfnhau ymwybyddiaeth hanesyddol, gymdeithasegol, seicolegol a gwleidyddol dysgwyr trwy astudio delweddau 'heriol'.

Caiff defnydd o Gymraeg, Mathemateg a TGCh eu hintegreiddio'n effeithiol iawn yn y dysgu, ac o ganlyniad, gall dysgwyr greu gwefan i ddangos eu stori ffotograffig eu hunain a chysylltu â chynulleidfa ddaearyddol eang ar-lein.

Mewn MBA, mae anghenion unigol y dysgwyr yn ganolog i'r ddarpariaeth. Mae tiwtoriaid yn mabwysiadu dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac maent yn cynnig ystod dda o weithgareddau addysgu a dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys tasgau unigol a grŵp, fel paru a didoli, sy'n datblygu llafaredd dysgwyr a gweithio mewn tîm sy'n cyfrannu at atgyfnerthu dysgu craidd yn effeithiol. Mae tiwtoriaid yn defnyddio proffiliau grŵp yn dda i nodi cymhellion a dyheadau unigol. Mae hyn yn cefnogi annibyniaeth, cymuned, iechyd a lles a chyflogadwyedd.

Mae tiwtoriaid yn annog cydweithio rhwng dysgwyr trwy addasu amgylcheddau addysgu a dysgu i arddull dysgu sy'n briodol i oedolion. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o adnoddau dysgu, yn cynnwys offer TG, meddalwedd ddigidol, cymhorthion digidol a deunyddiau bywyd go iawn sy'n ysgogi diddordeb, yn ehangu gwybodaeth a medrau unigol. Mae tiwtoriaid yn gwneud addasiadau addas i wella'r amgylchedd dysgu, er enghraifft trwy aildrefnu dodrefn i ddarparu'n well ar gyfer peiriannau gwnïo dysgwyr.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio strategaethau addysgu priodol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion. Maent yn rhoi cymorth i ddysgwyr ac yn eu hannog i feirniadu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddysgwyr mewn amgylchedd cefnogol. Er enghraifft, mewn blodeuwriaeth, mae'r athro'n trafod cyfansoddiad arddangosfa a fydd yn herio medrau dysgwyr o safbwynt artistig a thechnegol. Mewn SSIE, mae'r tiwtor yn defnyddio amser yn effeithiol trwy ddarparu gweithgareddau dysgu annibynnol pwrpasol ar gyfer y grŵp tra'n cydlynu sesiynau tiwtorial un i un. Mewn llawer o ddosbarthiadau, fel tacluso cŵn a ffotograffiaeth ddigidol, mae tiwtoriaid yn defnyddio holi yn dda i brofi medrau galw dysgu blaenorol i gof a'r wybodaeth gefndir sydd gan ddysgwyr am eu maes astudio dewisol. Mewn dosbarthiadau SSIE, mae tiwtoriaid yn defnyddio holi yn fedrus i ymestyn ymatebion dysgwyr, dyfnhau eu dealltwriaeth ac annog iaith lafar fwy manwl.

Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau ar draws y ddarpariaeth, nid yw gweithgareddau cynlluniedig yn hyrwyddo cyfranogiad dysgwyr yn ddigon da ac mae tiwtoriaid yn dibynnu'n ormodol ar ddysgwyr yn creu eu cyfleoedd eu hunain ar gyfer trafod.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn rhoi adborth defnyddiol ac anogol ar waith dysgwyr. Caiff gwaith cartref ei farcio'n brydlon gyda sylwadau buddiol ac awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gwella. Mewn dosbarthiadau SSIE, mae tiwtoriaid yn rhoi adborth â ffocws da yn ysgrifenedig ac ar lafar sy'n cynorthwyo dysgwyr i wella'u medrau iaith yn effeithiol. Mewn

gwaith ysgrifenedig, mae tiwtoriaid yn defnyddio codau cywiro yn dda i hyrwyddo annibyniaeth a hunangywiro dysgwyr.

Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw tiwtoriaid yn strwythuro’u sesiynau’n ddigon da ac nid yw gweithgareddau dysgu yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth strwythuredig. O bryd i’w gilydd, nid yw tiwtoriaid yn gwneud dysgwyr yn ymwybodol bod eu cwrs wedi’i achredu.

Mae tiwtoriaid yn greadigol yn y ffordd y maent yn ymgorffori’r Gymraeg a chynnwys ac enghreifftiau Cymraeg penodol wrth gyflwyno’r cwricwlwm. Mae gan lawer ohonynt ymrwymiad cryf i gyflwyno dysgwyr i’r Gymraeg a’i diwylliant.

Er mwyn gwella ymhellach, dylai’r darparwr ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol i helpu ychydig o diwtoriaid:

- i gryfhau eu medrau i ddatblygu gwybodaeth bwnc dysgwyr mewn ffordd strwythuredig, a
- chryfhau eu medrau mewn hyrwyddo cyfranogiad dysgwyr.

**Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae bron pob un o’r dysgwyr yn ymgyfarwyddo’n gyflym ac yn hyderus â dysgu trwy drefniadau cofrestru, sefydlu ac asesu personoledig. Mae trefniadau teilwredig ar gyfer dysgwyr SSIE, MBA ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn helpu dysgwyr i ddeall y cymorth sydd ar gael iddynt. Mewn lleoliadau cymunedol, mae staff dynodedig yn croesawu dysgwyr newydd ac yn rhoi anogaeth, cyswllt a chymorth ymarferol i’w helpu i ymgysylltu â darpariaeth. Er enghraifft, mae staff yn cynorthwyo dysgwyr mewn dosbarthiadau digidol i gael mynediad i gysylltedd Wi-Fi. Cofrestru ar-lein yw’r unig opsiwn sydd ar gael ar hyn o bryd. I ychydig o ddysgwyr yn y gymuned, mae hyn yn creu rhwystr oherwydd nad oes ganddynt bob amser fedrau digidol addas neu fynediad i gofrestru yn y modd hwn. Yn yr achos hwn, mae’r darparwr yn cynnig cymorth i ddysgwyr i lenwi’r ffurflen ddigidol.

Mae tiwtoriaid a staff lleoliadau cymunedol yn creu amgylcheddau tawel a pharchus lle mae dysgwyr yn teimlo’n gyfforddus yn cymryd rhan ac yn gofyn am gymorth. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn teimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi’n dda o fewn dosbarthiadau croesawgar a chynhwysol. Mae llawer o ddysgwyr yn disgrifio’r ddarpariaeth “fel teulu” ac maent yn gwerthfawrogi’r ymdeimlad cryf o berthyn a grëwyd trwy berthnasoedd cefnogol gyda thiwtoriaid, staff eraill a chyfoedion.

Mae tiwtoriaid a staff lleoliadau cymunedol yn ymateb yn sensitif ac yn hyblyg i amgylchiadau personol ac anghenion lles dysgwyr. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cysylltu â dysgwyr os ydynt yn methu dosbarth heb roi esboniad, er mwyn deall sefyllfa’r dysgwr a

sicrhau bod y dysgwr yn cael cyfle i ddal i fyny â gwaith a gollwyd. Mae staff lleoliadau cymunedol yn sicrhau bod dysgwyr yn gwybod pa gyfleusterau ychwanegol sydd ar gael iddynt yn y lleoliad, fel ardaloedd tawel, lluniaeth, llyfrgell a chyfleusterau parcio.

Mae dysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau mewn lleoliadau cymunedol yn gwerthfawrogi'r agweddau cymdeithasol ar ddosbarthiadau yn arbennig, yn cynnwys cyfleoedd cyfoethogi. Mae llawer o gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymweld â'r theatr, cymryd rhan mewn clybiau llyfrgell amser cinio, gweithgareddau ffitrwydd, tripiau siopa i gaffael deunyddiau, er enghraifft, ac maent yn gwahodd siaradwyr gwadd i'r dosbarth i helpu ehangu safbwyntiau dysgwyr am eu pwnc. Mae dysgwyr SSIE yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddathlu eu diwylliannau eu hunain ochr yn ochr â dysgu am ddiwylliant Cymreig a Phrydeinig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi mynediad ar-lein a hybrid hyblyg at ddysgu, sy'n cefnogi eu presenoldeb a'u parhad mewn dysgu, er gwaethaf amgylchiadau heriol ar yr aelwyd, yn cynnwys cyfrifoldebau gofal plant. At ei gilydd, mae'r mecanweithiau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at les dysgwyr a'u hymgysylltiad â dysgu. Serch hynny, mae presenoldeb rheolaidd ar draws y ddarpariaeth gyda'r nos a'r ddarpariaeth gymunedol yn amrywiol, er bod tiwtoriaid yn y rhan fwyaf o achosion yn gwybod y rhesymau dros absenoldeb dysgwyr ymlaen llaw. Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau iaith gyda'r nos, mae presenoldeb isel a gostyngiad yn y niferoedd mewn dosbarthiadau yn lleihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, ac yn cael effaith negyddol ar ansawdd y profiad dysgu.

Mae cysylltiadau'r darparwr ag asiantaethau allanol a sefydliadau cymunedol yn cefnogi lles, cyflogadwyedd ac integreiddio cymdeithasol ehangach dysgwyr yn effeithiol. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE yn manteisio ar wybodaeth ddefnyddiol am gymorth ynghylch troseddau casineb gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn ddysgwr blaenorol. Mae dysgwyr hefyd yn cael cyngor ac arweiniad defnyddiol am y camau nesaf mewn dysgu, yn cynnwys dilyniant ymlaen i gyrsiau lefel uwch, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth. Mae tiwtoriaid, y tîm gyrfaoedd a phartneriaid allanol yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol i sicrhau bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o ystod eang y cyfleoedd sydd ar gael ac awgrymu pa gyrsiau a llwybrau dilyniant sy'n briodol i ddysgwr gyflawni ei nod.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod ystod o gymorth priodol ar gael i helpu lleihau rhwystrau rhag cymryd rhan mewn dysgu oedolion yn y gymuned. Mae dysgwyr yn elwa ar gynnig cwnsela trwy blatfform allanol sydd ar gael mewn amryfal ieithoedd, ochr yn ochr â chymorth ymarferol fel darpariaeth pantri, mannau sy'n cynnig gwres a bwyd, cyfleusterau golchi dillad, cynhyrchion hylendid yn rhad ac am ddim, a mynediad at gyfleusterau brecwast ar ddau brif gampws y coleg. Mae staff yn deall yn dda ar ba adegau o'r flwyddyn y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr, er enghraifft yn ystod gwyliau ysgol. Mae dysgwyr yn elwa ar Y Siop, sy'n cynnig dillad wedi eu rhoi am gost isel iawn, a

'Chwpwrdd Gweithio' sy'n darparu dillad priodol yn rhad ac am ddim ar gyfer cyfweliadau neu gyflogaeth. Mewn meysydd galwedigaethol, mae dysgwyr ar gwrs tacluso cŵn yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gallu defnyddio offer y coleg, gan fod hyn yn eu galluogi i arbrofi ag amrywiaeth o offer cyn ymrwymo i brynu eu hoffer eu hunain ar ôl cwblhau'r cwrs.

Mae dysgwyr yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant cryf o lais y dysgwr trwy drefniadau sy'n cynrychioli myfyrwyr. Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarnhaol i adborth a cheisiadau dysgwyr. Er enghraifft, yn dilyn ceisiadau gan ddysgwyr, mae'r adran SSIE wedi cynnwys cwrs SSIE lefel 2 amser llawn o fewn cynnig cwricwlwm y flwyddyn nesaf, lle bu hwn ar gael yn rhan-amser yn unig yn y gorffennol.

O fewn y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, caiff anghenion cymorth dysgwyr eu nodi'n briodol trwy brosesau cofrestru, asesiadau dilynol, lle bo'n berthnasol, ac atgyfeirio gan diwtoriaid, lle mae pryderon yn codi ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs. Caiff anghenion cymorth eu diwallu'n effeithiol trwy'r cymorth sydd ar gael o fewn y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf ar draws y ddarpariaeth. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon ac maent yn nodi tiwtoriaid a staff lles yn hyderus fel oedolion y gellir ymddiried ynddynt. Mae staff yn deall gweithdrefnau diogelu yn briodol ac mae arweinwyr yn monitro pryderon ynghylch diogelu ac ymgysylltiad dysgwyr â gwasanaethau cymorth yn ofalus. Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion diogelwch personol, cymorth cymunedol a diogelu yn effeithiol trwy sesiynau addysgiadol ac ymgysylltu ag asiantaethau allanol. Mae trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach, dylai'r darparwr:

- adolygu'r broses gofrestru ar gyfer dysgwyr mewn darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned i'w gwneud yn fwy hygyrch i'r darpar ddysgwyr hynny nad oes ganddynt fedrau digidol neu fynediad i allu ymgeisio ar-lein, ac
- ymgynghori â dysgwyr mewn dosbarthiadau lle mae presenoldeb yn anghyson i ddarganfod a ellir gwneud unrhyw addasiadau i annog presenoldeb rheolaidd.

## Arwain a gwella

Ym mis Ebrill 2025, trosglwyddwyd dyraniad yr awdurdod lleol o'r grant dysgu oedolion yn y gymuned i Goleg Pen-y-bont i helpu sicrhau darpariaeth barhaus dysgu oedolion yn y gymuned ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r pennaeth a'i huwch dîm wedi ystyried yn ofalus sut i ddefnyddio'r grant dysgu cymunedol i ychwanegu at eu darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned eu hunain ac ymestyn y ddarpariaeth yn yr ychydig flynyddoedd nesaf i'r gymuned i leihau rhwystrau rhag dysgu. Mae Coleg Pen-y-bont yn

cynnig darpariaeth addas ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned, ac mae'n diwallu anghenion dysgwyr ac yn bodloni eu diddordebau'n dda, ar y cyfan.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn mynychu grŵp llywio strategol ôl-16 yr awdurdod lleol yn rheolaidd sy'n cyfarfod bob deufis. Mae hyn yn sicrhau bod y coleg yn rhan o'r rhwydwaith addysg ehangach yn yr ardal, ac o ganlyniad, mae ganddo ddealltwriaeth fanwl o flaenoriaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer dysgu gydol oes. Mae'r coleg wedi bod yn rhagweithiol o ran cynnal cysylltiadau â darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned allweddol eraill yn yr ardal, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac Addysg Oedolion Cymru. Mae'r fforwm dysgu oedolion hwn yn cyfarfod ddwywaith bob chwarter i sicrhau nad oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei dyblygu'n ddiangen, bod darpariaeth yn gyflenwol a bod darparwyr yn gallu cyfeirio dysgwyr yn hawdd at lwybrau dilyniant priodol ar sail eu hanghenion. Mae'r rhwydwaith wedi cyflwyno system fyw ar-lein ddefnyddiol lle maent yn cyfeirio at ddarpariaeth ei gilydd mewn amser real.

Mae'r coleg wedi rhoi strategaeth ymgysylltu a ystyriwyd yn dda ar waith, sydd wedi arwain at gynyddu niferoedd cofrestru. Mae aelodau staff yn ymweld ag archfarchnadoedd, gorsafoedd trenau a bysiau ac yn mynychu nosweithiau rhieni mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y rhanbarth i ddarparu gwybodaeth, ateb cwestiynau a deall anghenion y dysgwyr. Mae hyn wedi arwain at gynnig darpariaeth sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen o gyfnodau cynnar mewn dysgu yn y gymuned i gymwysterau lefel uwch, naill ai yn y coleg neu rywle arall.

### Ciplun: Darpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr

Ar ôl darganfod bod llawer o rieni / gofalwyr eisiau cynorthwyo'u plant â dysgu mathemateg, mae'r darparwr wedi sefydlu dosbarthiadau ar gyfer rhieni / gofalwyr plant o oedran ysgol uwchradd i'w helpu i adfywio'u gwybodaeth am fathemateg a deall sut caiff mathemateg ei haddysgu mewn ysgolion ar hyn o bryd. I ddeall lefel yr angen, mynychodd tiwtor noson rieni / gofalwyr mewn ysgolion uwchradd ar draws y fwrdeistref sirol. O ganlyniad, mae'r darparwr wedi sefydlu cyfres o ddosbarthiadau yn canolbwyntio ar y fathemateg a addysgir ym Mlynyddoedd 7 ac 8, Blynyddoedd 8 a 9, a Blynyddoedd 10 ac 11 TGAU. Cynigir y dosbarthiadau fel dosbarthiadau ar-lein a hybrid ac ar wahanol adegau yn yr wythnos, sy'n galluogi rhieni / gofalwyr i fynychu'r dosbarthiadau i gyd-fynd â'u bywydau gweithio a'u bywydau cartref. Dywed rhieni / gofalwyr eu bod yn elwa ar y dosbarthiadau hyn mewn sawl ffordd: maent yn gwella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain o ran mathemateg; mae ganddynt ddealltwriaeth well o'r cwricwlwm mathemateg a'r ffordd y caiff ei addysgu mewn ysgolion; gallant gefnogi dysgu eu plant yn well; gallant symud ymlaen trwy'r cyfnodau wrth i'w plant symud ymlaen trwy'r cyfnodau; maent yn teimlo'u bod wedi ymgysylltu mwy â'u plant a'u bywydau ysgol; maent yn teimlo'n fwy hyderus yn trafod cynnydd eu plant gydag athrawon; maent yn cyfarfod â rhieni / gofalwyr eraill sydd â phlant o oedran tebyg a gallant rannu eu profiadau mewn amgylchedd

cefnogol; maent yn gwneud ffrindiau newydd, ac os ydynt yn dymuno, gallant ddilyn cwrs TGAU mewn mathemateg neu gael eu cyfeirio at gwrs Safon Uwch.

Yn ystod blwyddyn gyntaf derbyn y grant dysgu oedolion yn y gymuned, mae'r coleg wedi ymestyn nifer y lleoliadau y mae'n cynnig darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ynddynt. Fodd bynnag, mae nifer fach o ardaloedd difreintiedig yn y sir o hyd lle nad yw wedi gallu caffael lleoliad addas. Mae'r coleg yn defnyddio'i ddau gampws ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phen-coed. Cynigir darpariaeth SSIE a MBA ar y prif gampws ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phen-coed. Mae'r cyfleusterau ar gampws Pen-coed yn darparu ystafelloedd dosbarth mawr ac ynddynt offer da, sy'n darparu ar gyfer dosbarthiadau crefftau, fel crefft siwgr, tacluso cŵn a ffotograffiaeth ddigidol. Yn ychwanegol, mae'r coleg yn cyflwyno cyrsiau o'r llyfrgell ym Mhen-coed, neuadd y dref ym Maesteg, Hyb Cymunedol y Bont ym Mhen-y-bont ar Ogwr, B-Leaf ym Mharc Gwledig Bryngarw, yn ogystal ag Ysgol Gynradd Litchard. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys cyfleusterau o ansawdd da ar gyfer cyrsiau oedolion, a gellir eu cyrraedd yn hawdd ar gludiant cyhoeddus neu mewn car. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn cynnwys offer da, a cheir offer digidol sy'n galluogi dysgwyr i gael mynediad i ddosbarthiadau hybrid lle gall dysgwyr gael mynediad i sesiynau wyneb yn wyneb ar-lein, yn ogystal â chyfleusterau i ymchwilio trwyddynt. Mae cyrsiau hybrid yn darparu rôl ddefnyddiol mewn helpu dysgwyr i sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion eu bywydau gartref ac ymrwymiadau gwaith â dysgu. Mae'r coleg wedi teilwra'r amseroedd dechrau ar gyfer dosbarthiadau gyda'r nos i fod yn gynnar gyda'r nos i ddiwallu ar gyfer anghenion dysgwyr.

Ceir arwyddion dwyieithog clir mewn lleoliadau, ac mae'r coleg a'r tiwtoriaid yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn eu sesiynau, yn ogystal â chyflwyno dysgwyr i derminoleg y pwnc yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr yn cynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd oherwydd lefel isel o ddiddordeb ymhlith dysgwyr. Mewn cyrsiau SSIE, mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddeall bywyd yng Nghymru. Yn ystod cyfnod yr etholiad, bu tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae pleidleisio'n digwydd, yn ogystal â deall datganoli trwy ymweliad â'r Senedd.

Mae'r coleg wedi integreiddio'r cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned a gynhyrchwyd gan y grant dysgu yn y gymuned yn ei gylch sicrhau ansawdd sefydledig. Mae'n casglu gwybodaeth am ansawdd ei gyrsiau trwy ystod eang o weithgareddau, fel teithiau dysgu sengl a phâr, arsylwadau myfyriol, gwrando ar ddysgwyr a thiwtoriaid ac arolygon dysgwyr. Mae'r coleg yn gwneud defnydd ystyriol o ddeallusrwydd artiffisial (AI) i ddadansoddi gwybodaeth sy'n galluogi staff i weithredu'n gyflymach ar faterion a nodwyd.

Mae'r coleg yn cynnwys llywodraethwyr yn briodol mewn teithiau dysgu fel y gallant ddatblygu gwybodaeth uniongyrchol am ansawdd y ddarpariaeth i lywio eu rôl lywodraethu. Caiff y wybodaeth a enillir trwy'r holl gamau hyn ei dadansoddi'n barhaus

trwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae staff yn darparu adborth ar y camau gweithredu a gymerwyd yn brydlon i ddysgwyr gan ddefnyddio system ‘dywedoch chi, gwnaethon ni’. Lle caiff materion sy’n gyffredin i sawl maes eu nodi, caiff y rhain eu hystyried mewn cyfarfodydd rheolaidd gan arweinwyr canol ac uwch arweinwyr sy’n llunio blaenoriaethau ar gyfer cynllunio gwella ansawdd. Mae’r cynllun gwella ansawdd yn cynnwys camau gweithredu mesuradwy ac amserol ar gyfer gwella sy’n cael eu monitro yn aml. Mae’r coleg wedi mynd i’r afael yn briodol â’r argymhellion o’r arolygiad diwethaf o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae’r coleg yn cynnig cyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol i bob un o’i diwtoriaid. O dri diwrnod dysgu proffesiynol a gynigir, gall tiwtoriaid ddefnyddio un diwrnod i ailedrych ar eu harbenigeddau trwy ymweliadau i ddiweddaru eu gwybodaeth ddiwydiannol. Gall staff nodi ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol teilwredig; er enghraifft, mewn SSIE, gall tiwtoriaid ddiweddaru eu gwybodaeth a’u medrau trwy gyrsiau ar-lein. Mae staff yn nodi’r meysydd y maent yn dymuno’u datblygu trwy broses arsylwi myfyriol. Mae’r system hon yn annog ymreolaeth staff wrth wella’u harfer addysgu eu hunain. Caiff y deuddydd sy’n weddill o ddatblygiad proffesiynol eu trefnu o amgylch materion cyffredin y mae’r coleg yn eu nodi o’i ddadansoddiadau sicrhau ansawdd a’i flaenoriaethau strategol neu genedlaethol, fel gwrth-hiliaeth a rheoli ymddygiad yn gadarnhaol.

Er mwyn gwella ymhellach, dylai’r darparwr:

- Ymestyn cyrhaeddiad y coleg i leoliadau cymunedol i helpu lleihau rhwystrau rhag addysg ymhellach.

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau’r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i staff
- yn adolygu data ar berfformiad cyhoeddedig y bartneriaeth

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, swyddogion yr awdurdodau lleol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn arsylwi sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2026